Senedd Cymru | Welsh Parliament
Ymchwil y Senedd | Senedd Research

Hysbysu pob person 18 oed sydd wedi derbyn gofal cymdeithasol fod ganddynt yr hawl i wneud cais am eu gwybodaeth bersonol

Y Pwyllgor Deisebau | 29 Tachwedd 2021
Petitions Committee | 29 November 2021

Cyfeirnod: SR21/1251

Rhif y ddeiseb: P-06-1218

Teitl y ddeiseb: Hysbysu pob person 18 oed sydd wedi derbyn gofal cymdeithasol fod ganddynt yr hawl i wneud cais am eu gwybodaeth bersonol.

Geiriad y ddeiseb: Dylai pawb sydd wedi bod yng ngofal y gwasanaethau cymdeithasol gael gwybod am yr hawl sydd ganddynt i wneud cais am eu gwybodaeth bersonol gan y gwasanaethau cymdeithasol wrth iddynt droi'n 18 oed. Gall y broses o adolygu papurau nifer o flynyddoedd ar ôl y digwyddiad dan sylw gael effaith niweidiol sylweddol ar les unigolion a theuluoedd.

Mae gan bob person hawliau dynol, a dylid hysbysu pobl ynghylch yr hawl i weld eu ffeiliau. Gan fy mod i mor angerddol ynghylch helpu plant eraill, penderfynais wneud gradd mewn gwaith ieuenctid a chymunedol. Yn ystod sgwrs gyda fy narlithydd, a oedd yn ymwybodol fy mod i wedi derbyn gofal yn sgil sgyrsiau blaenorol, gofynnwyd imi a oeddwn wedi gwneud cais i weld fy ffeil diogelu data. Doedd gen i ddim syniad beth oedd y ffeil honno, nac ychwaith at beth yr oedd fy narlithydd yn cyfeirio. Rhoddodd fy narlithydd gyngor wrthyf ynghylch yr hyn y dylwn ei wneud. Dilynais y weithdrefn dan sylw a chefais y ffeil. Edrychodd y dyn arnaf gydag empathi, gan ei fod wedi ei darllen. Roedd yr empathi yr oedd yn ei ddangos imi yn destun peth syndod a dryswch i mi. Mi es i adref â'r ffeil hon, ac roedd gen i gryn ddiddordeb mewn darllen y cynnwys ar yr adeg honno, yn enwedig yn sgil mynegiant

wyneb y dyn, a'r ffaith fy mod i'n gwybod ei fod wedi ei darllen hefyd. Fodd bynnag, doedd gen i ddim syniad beth oedd o'm mlaen i. Roeddwn yn agored i'r trawma plentyndod a'r esgeulustod yr oeddwn wedi'u dioddef. Cefais gymaint o sioc, bu'n rhaid imi weld seiciatrydd gan fy mod i wedi ail-fyw trawma'r gorffennol. Nid wyf yn beio'r gwasanaethau cymdeithasol am y modd y cefais fy nhrin gan fy rhieni. Nid eu bai nhw oedd hynny.

1. Cefndir

Mae deiseb i **hysbysu pob person 18 oed sydd wedi 'derbyn gofal cymdeithasol', yn ôl diffiniad y deisebydd, yr hawl i ofyn am eu gwybodaeth bersonol** wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Deisebau.

Ar hyn o bryd, mae gan bobl ifanc 18 oed eisoes yr **hawl i gael gafael ar wybodaeth bersonol**, ond **nid oes dyletswydd i hysbysu'r rhai sydd wedi bod mewn gofal** o'r hawl hon pan fyddant yn troi'n 18 oed.

Cedwir cofnodion personol fel y gellir defnyddio gwybodaeth i gynllunio a darparu gwasanaethau. Gall y cofnodion hyn gynnwys dogfennau allweddol, gan gynnwys cynlluniau ac adolygiadau cynnydd, adroddiadau ysgol, gwybodaeth gan ddarparwyr gwasanaeth ac am berthnasau biolegol.

Mae'r hawl i gael mynediad at gofnodion wedi newid dros amser ac fe'i cyflwynwyd gyntaf yn yr 1980au yn dilyn apêl i Lys Hawliau Dynol Ewrop gan berson ifanc a oedd wedi bod yng ngofal awdurdod lleol ac y gwrthodwyd mynediad iddo at gofnodion personol. Dyfarnodd y Llys fod mynediad at gofnodion yn hawl ddynol o dan Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a oedd yn gwarantu bywyd preifat a theuluol.

O dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ('GDPR') gall unrhyw berson wneud 'Cais Gwrthrych am Wybodaeth' i unrhyw sefydliad a allai ddal gwybodaeth amdanynt. Mae gan bobl sydd wedi bod mewn gofal yr hawl i ofyn am gofnodion a gwybodaeth am eu hamser mewn gofal cymdeithasol a chael mynediad atynt gan **unrhyw sefydliad** sy'n eu dal. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau lleol, asiantaethau maeth, elusennau, ysgolion, y GIG ac unrhyw sefydliad arall a oedd yn ymwneud â'u gofal.

Cael gafael ar gofnodion personol

1.1. I'r rhai sydd am weld eu cofnodion personol gallant wneud 'Cais Gwrthrych am Wybodaeth' yn rhad ac am ddim. Mae gan sefydliadau un mis i ymateb, er y gallant ymestyn hyn i dri mis os yw'r cais yn gymhleth - mae cofnodion gofal fel rheol yn gymhleth.

Mae sefydliadau ymgyrchu, gan gynnwys y Grŵp Ymgyrch Mynediad at Gofnodion Gofal (ACRCG) a FamilyConnect yn galw am fynediad gwell at ffeiliau ar gyfer plant mewn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal. Maent yn pwysleisio eu barn ar yr effaith gadarnhaol sy'n newid bywyd y gall gweld cofnodion gofal cymdeithasol ei chael ar y rhai sydd wedi bod mewn gofal. Gall mynediad at y cofnodion hyn ateb cwestiynau sydd heb eu hateb, neu gall helpu i adeiladu neu ailsefydlu cyswllt â pherthnasau biolegol.

Yn 2017, cynhaliodd Coleg Prifysgol Llundain astudiaeth a oedd yn archwilio sut mae cofnodion yn cael eu creu, eu rheoli, eu cadw a'u cyrchu yn Lloegr. Daeth yr astudiaeth *Memory – Identity – Rights in Records – Access (MIRRA)* i'r casgliad, er bod cofnodion yn chwarae rhan ganolog wrth sefydlu ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn drwy gydol oes person, mae nifer o faterion wrth geisio cael gafael ar gofnodion:

- Mae arferion cofnodi gofal cymdeithasol yn aml yn methu â diwallu anghenion 'stori bywyd' y rhai sy'n gadael gofal, oherwydd ffocws ar reoli risg, cydymffurfiaeth a chanlyniadau.
- Mae prosesau rheoli cofnodion yn anghyson ac yn amrywiol iawn, ac mae llawer o gofnodion mewn perygl o gael eu colli neu eu dinistrio. Mae hyn yn cynnwys cofnodion digidol sy'n aml yn cael eu creu a'u rheoli mewn systemau perchnogol sy'n cael eu defnyddio am gyfnodau byr.
- Mae'r dirwedd ddeddfwriaethol a rheoliadol yn dameidiog, yn ddryslyd ac yn annigonol i anghenion y rhai sy'n gadael gofal. Mae hyn yn arbennig o wir o ran mynediad o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, nad yw'n cyfrif am y rôl unigryw sydd gan gofnodion gofal cymdeithasol ar ymdeimlad unigolyn o hunaniaeth a pherthyn.

Ym mis Mawrth 2021, cyflwynodd y Grŵp Ymgyrch Mynediad at Gofnodion Gofal ymateb i'r Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol ar Adolygiad Llywodraeth y DU o'r Ddeddf Hawliau Dynol a galwodd am:

> legislation which takes the rights of an adult care leaver to their personal and family history outside of data protection legislation and process and replaces the present legal route with a dedicated and more empathetic legislative framework.

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae adrannau 105 i 115 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i ddarparu cyngor a chefnogaeth i blant a phobl ifanc y mae wedi 'gofalu amdanynt' pan fyddant yn gadael gofal cymdeithasol. Mae Rhan 6 Cod Ymarfer (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi rôl **Cynghorydd Personol**, a roddir i bob person sy'n gadael gofal hyd at 25 oed a chynllun gofal neu 'Gynllun Llwybr' sy'n nodi manylion am y gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd eu hangen ar bobl ifanc sydd wedi gadael gofal.

Wrth ymateb i'r ddeiseb, cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol at rôl y Cynghorydd Personol, sy'n:

> gweithredu fel canolbwynt cyson i'r rhai hynny sy'n gadael gofal gan sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth bersonol a chyson yn ystod y cyfnod pontio i fyd oedolion. Yn rhan o'u rôl, dylai Cynghorwyr Personol gynnig cefnogaeth i bobl ifanc i'w galluogi i gael gweld eu ffeiliau achos yn ddi-drafferth.

Ychwanegodd y Dirprwy Weinidog:

> Rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol, y gwasanaethau iechyd a'r Cynghorydd Personol ddarparu mynediad at gefnogaeth addas a/neu gwnsela i'r rhai hynny sy'n gadael gofal os yw darllen eu hen ffeiliau achos yn achosi trawma iddynt. Mae'n bosibl y gall darparwyr eiriolaeth trydydd sector sy'n gweithio gyda'r rhai sy'n gadael gofal ddarparu cefnogaeth yn ogystal. Rydym hefyd yn ymwybodol y gall rhai oedolion wnaeth adael gofal cyn inni gyflwyno ein deddfwriaeth gyfredol fod yn awyddus i gael gweld eu ffeiliau achos. Byddem yn disgwyl i awdurdodau lleol gynorthwyo i hwyluso'r ceisiadau hyn. Byddem hefyd

> yn disgwyl i awdurdodau lleol, gwasanaethu iechyd ac os yn briodol, y trydydd sector sy'n gweithio yn y maes hwn i ddarparu cefnogaeth ar gyfer proses a all fod yn tu hwnt i emosiynol.

Wrth sôn am ei arfer cyfredol mewn perthynas â'r mater hwn, dywedodd Cyngor Sir Caerfyrddin:

> We already ask our staff to be proactive in doing ongoing life story work with children as they go through their time in care so that they are able to continually have the opportunity to reflect on and comment about their experiences and understanding of the issues that led to them being in care as well as their experiences in care.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.